| | |
|---|---|
| **PWYLLGOR** | **PWYLLGOR TRWYDDEDU CYFFREDINOL** |
| **DYDDIAD:** | **21 Medi 2026** |
| **TEITL:** | **PRISIAU TEITHIAU CERBYDAU TACSI HACNI** |
| **PWRPAS:** | **CYMERADWYO CYNNIG GAN Y DIWYDIANT I GODI'R UCHAFSWM PRISIAU** |
| **AWDUR:** | **PENNAETH YR ADRAN AMGYLCHEDD** |

## 1.0 GWYBODAETH GEFNDIROL

1.1 Mae'r Ddeddf Llywodraeth Leol ( Darpariaethau Amrywiol) 1976 yn gosod dyletswyddau rheoleiddio ar yr Awdurdod Trwyddedu mewn perthynas â gweithredu uchafbris a all gael ei godi ar y cyhoedd wrth deithio mewn cerbydau hacni oddi fewn i'r Sir . Mae'r ddeddf yn gorfodi darparu tabl prisiau, ac mae hyn ynghyd a'r gofyniad statudol i ddefnyddio cloc tacsi (taxi meter) yn caniatáu mecanwaith i reoleiddio'r prisiau a godir ac i ddiogelu buddiannau'r cyhoedd.

1.2 Mae'n ofynnol fod unrhyw gais am newid yr uchaf bris a godir yn cael ei gyflwyno gan y diwydiant . Fe dderbyniwyd 3 cais yn gan berchnogion cwmnïau tacsi - i adolygu'r prisiau. Fe adroddwyd ar fanylion llawn y cynigion yng nghyfarfod y Pwyllgor hwn ar y 22o Fehefin 2026.

1.3 Nid yw'r uchaf bris yn berthnasol i deithiau mewn cerbydau hurio preifat , a drefnir ymlaen llaw.

1.4 Yng nghyfarfodydd blaenorol y Pwyllgor hwn Fe gafwyd cais llwyddiannus i gynyddu'r uchaf bris yn 2019 ac yn ddiweddarach yn 2022 , ac nid oes newid wedi bod ers hynny. Gweler atodiad 1 am dabl o'r uchaf brisiau presennol. Fe gynyddwyd yr uchaf bris am y ddwy filltir gyntaf taith tacsi o £5 i £6 yn 2019; sydd yn gynnydd sylweddol oedd yn adlewyrch cyfartaledd costau chwyddiant dros y cyfnod. Nid oes cynnydd wedi bod yn y cyfraddau sylfaenol un a dwy filltir cyntaf taith ers hynny.

1.5 Yn ei gyfarfod ar y 22 o Fehefin , fe benderfynodd y Pwyllgor hwn i gymeradwyo y cynigion i gynyddu rhai uchaf brisiau ; gyda rhai newidiadau i'r argymhelliad ar gyfer ymgynghoriad. Fe gyfarwyddwyd y gwasanaeth trwyddedu i fynd ati i gynnal ymgynghoriad gyda'r diwydiant , ac yn dilyn hynny ymgynghoriad statudol wedi ei hysbysebu mewn papur newydd lleol am 14 diwrnod.

## 2. CYNNIG A GYMERADWYWYD AR GYFER YMGYNGHORIAD GAN Y PWYLLGOR

2.1 O ystyried y ffactorau oll sydd yn bwysig i'r cyd-destun economaidd presennol , ac adroddiad y swyddog trwyddedu, fe dderbyniwyd argymhelliad yr Awdurdod Trwyddedu - ond gyda gwelliant fod y tariff hwyr y nos yn weithredol o 22:00 yr hwyr tan 7 :00 y bore yn hytrach na o 21:00 yr hwyr fel y cynigwyd gan y diwydiant. Yn bresennol; mae'r tariff hwyr yn weithredol o hanner nos , ac felly barn y Pwyllgor hwn oedd fod hwn yn welliant teg oedd yn cynnig buddiant i'r diwydiant ac i'r cyhoedd sydd yn ddibynnol ar ddefnydd tacsis.

2.2 Roedd penderfyniad terfynol y Pwyllgor felly fel a ganlyn -

- Cynyddu  uchaf bris cyfradd taith un filltir o £3.60 i £4.00 er mwyn bod yn gyson gydag amryw o gynghorau eraill, ac i gyfarch y cynnydd mewn costau rhedeg tacsi.
- Cynyddu oriau gweithredol tariff hwyr y nos i fod yn weithredol o 22:00 yr hwyr tan 07:00 y bore, yn hytrach na bod yn weithredol o 00:00 hanner nos.
- Gostwng cyfradd cost teithiau tariff hwyr o 60% uwch na'r gyfradd sylfaenol yn ôl i 50% yn uwch na'r gyfradd sylfaenol er mwyn cyd - fynd yn gyffredinol gyda chynghorau eraill. ( gweler Cofnodion draft y Pwyllgor hwn a gynhaliwyd yn mis Mehefin wedi ei atodi)
- Cyfarwyddo'r Awdurdod Trwyddedu i fynd ymlaen gyda ymgynghoriad cyhoeddus statudol ar y cynnigion.

3. **CANLYNIAD YR YMGYNGHORIAD**

3.1 Yn unol â threfniadau statudol ; fe ymgynghorwyd ar y cynnig uchod am 14 diwrnod mewn papur lleol; gyda'r bwriad fod yr uchafbris newydd yn weithredol o'r dyddiad  a nodir ar y rhybudd , sef y 1af o Hydref 2026 . Fe atodir copi o'r hysbyseb a gyhoeddwyd mewn papur newydd  lleol rhwng y 19 o Awst ac y 3ydd o Fedi 2026. Fe roddwyd copi o'r hysbyseb a gwahodd sylwadau am 14 diwrnod ar wefan y Cyngor yn ogystal.

3.2 Cyn i'r ymgynghoriad swyddogol gychwyn ;fe yrrwyd gohebiaeth hefyd  at y  diwydiant tacsis am 4 wythnos. Cafwyd dau e bost yn cefnogi'r egwyddor o godi uchaf brisiau.

3.3. Fe ddaeth yr ymgynghoriad i ben ar y  3ydd o Fedi 2026, ac ni dderbyniwyd unrhyw ymatebion i'r ymgynghoriad cyhoeddus .

**ARGYMHELLIAD**

Bod y Pwyllgor yn cymeradwyo'r cynnig i godi'r uchaf bris yn weithredol o'r 1af o Hydref 2026 yn unol â'r argymhellion; ac yn unol a'r darpariaethau cyfreithiol;  gan nad oes gwrthwynebiad na cynigion wedi eu derbyn yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus